**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : MA P HID 4289 17

Lynne Neagle AM
Cadeirydd, Pwyllgor Plant,
Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol i Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

22 Ionawr 2018

Annwyl Lynne,

Yn dilyn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017, ysgrifennom atoch chi ar 1 Rhagfyr gan roi rhagor o wybodaeth yn deillio o drafodaethau yn y cyfarfod hwnnw. Fe wnaethom gynghori, ar gyfer 2018-19, y byddai'r dyraniadau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf i awdurdodau lleol yn cael eu cynnal ar lefelau 2017-18 - £76.052m a £38.352m yn y drefn honno.

Yn unol ag arferion cyllidebol cyffredin, dros nifer o flynyddoedd mae dyraniadau grant i awdurdodau lleol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi cynnwys elfen o or-raglennu, h.y. mae'r cyllid a ddyrannwyd yn fwy, o ryw gymaint, na'r gyllideb sydd ar gael. Mae gor-raglennu yn helpu i sicrhau bod cyllidebau yn cael eu gwario'n llawn, gan osgoi achosion o danwario.

Yn 2018-19 mae gan yr Awdurdodau Lleol y gallu i symud cyllid rhwng nifer o raglenni grant. Nod yr hyblygrwydd hwn yw helpu i wella ac integreiddio'r ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn cefnogi'n well deuluoedd a phobl sy'n agored i niwed yn eich ardal. Bydd hyn hefyd yn eu helpu i reoli a lleihau achosion posibl o danwario. Rydym felly wedi adolygu ein trefniant gor-raglennu ac wedi penderfynu nad oes angen y lefel bresennol o or-raglennu bellach, a bod defnyddio'r hyblygrwydd cyllid sydd nawr ar gael yn ffordd well o reoli tanwario. Mae lleihau lefel y gor-raglennu yn beth doeth a synhwyrol er mwyn osgoi gorwario

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dyraniad yr Awdurdodau Lleol ar gyfer 2018-19, felly, wedi'i leihau fymryn lleiaf o 1.8%. Nid ydym yn disgwyl i'r gostyngiad hwn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae cyllidebau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn parhau ar yr un lefel a 2017-18.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services



**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Minister for Children and Social Care